# HyBont Pen-y-bont ar Ogwr
## Prosiect Hydrogen Gwyrdd.

HYGEN

# Cludiant
## Taflen Ffeithiau

Mae Asesiadau Effaith Traffig wedi'u cynnal ar gyfer y cyfleuster cynhyrchu hydrogen gwyrdd arfaethedig ym Mrynmenyn a fferm solar ym Mryncethin, ac effeithiau posibl yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu yn cael eu hasesu a mesurau lliniaru yn cael eu nodi, lle bo'n briodol.

## Yn ystod y gwaith adeiladu

Yn ystod y cyfnod adeiladu o 21 mis ar gyfer y cyfleuster hydrogen gwyrdd ym Mrynmenyn, rhagwelir 20 taith HGV (10 i mewn a 10 allan) a 50 o symudiadau staff (25 i mewn a 25 allan) bob dydd.

Bydd mynediad i'r safle yn ystod y gwaith adeiladu drwy Chilcott Avenue ar y dechrau, drwy estyniad syml i'r llwybr presennol, hyd y bydd mynediad i'r safle oddi ar Squire Drive wedi'i adeiladu. Unwaith y bydd wedi'i adeiladu, bydd Squire Drive yn cael ei ddefnyddio i gael mynediad i'r safle.

Yn ystod y cyfnod adeiladu o 6 mis ar gyfer y fferm solar ym Mryncethin, rhagwelir 12 taith HGV (chwech i mewn a chwech allan) a 40 o symudiadau staff (20 i mewn ac 20 allan) bob dydd.

Ar gyfer y ddau safle, bydd Cerbydau Nwyddau Trwm yn osgoi'r amseroedd brig o 8am-9am a 4pm-6pm lle bo modd er budd rhwydwaith ffyrdd ehangach Bryncethin. Bydd gan bob cerbyd sy'n gysylltiedig â'r gwaith adeiladu fannau parcio dynodedig oddi ar y stryd o fewn caeadle adeiladu.

Mae Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) a Chynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) wedi'u paratoi ar gyfer pob safle, a fydd yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r cais cynllunio. Mae mesurau lliniaru disgwyliedig yn cynnwys danfoniadau graddol i'r safle, trefnu traffig, cyfleusterau golchi llaid oddi ar gerbydau ac ôl-lwytho (defnyddio cerbydau dosbarthu i symud deunydd o'r safle).

Yn amodol ar ganiatâd cynllunio, bydd contractwr yn cael ei benodi a bydd rhaglen adeiladu fanwl yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor i'w chymeradwyo.







## Yn ystod y cyfnod gweithredu

Unwaith y bydd y cyfleuster hydrogen gwyrdd ym Mrynmenyn yn weithredol, rhagwelir y bydd 56 o deithiau cerbydau mawr (28 i mewn a 28 allan) – yn cynnwys bysiau unllawr, lorïau nwyddau trwm, gan gynnwys trelars tiwb siasi sengl - a 10 symudiad staff (5 i mewn a 5 allan) bob dydd.

Nid yw hyn yn cael ei ystyried yn arwyddocaol, yn enwedig gan y bydd y rhan fwyaf o'r teithiau cerbydau mawr sy'n gysylltiedig â'r datblygiad hwn eisoes ar y rhwydwaith amgylchynol; gan y disgwylir i'r cerbydau sy'n ail-lenwi â thanwydd hydrogen fod yn gerbydau casglu sbwriel presennol ac o bosibl y fysiau cyhoeddus o'r fflyd tanwydd diesel presennol sydd yn cael eu trosi ar gyfer tanwydd hydrogen gwyrdd. Bydd yr unig 'deithiau newydd' yn gysylltiedig â staff a'r trelars tiwb hydrogen. Dylid nodi mai dim ond hyd at pedwar drelar tiwb a ddisgwylir ar y safle bob dydd.

Cynigir mynediad i'r safle o Squire Drive. Mae dadansoddiad llwybr ysgubedig llawn, sy'n cyfrifo'r gofod sydd ei angen ar gorff y cerbyd yn ogystal â'r llwybr a deithir gan bob olwyn yn ystod y tro, wedi'i gynnal. Mae hyn yn cadarnhau fod Squire Drive yn addas ar gyfer y cerbydau sy'n gysylltiedig â'r datblygiad.

Bydd parcio ar y safle yn y cyfleuster hydrogen gwyrdd yn cael ei ddarparu i ddiwallu anghenion staff ac ymwelwyr. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynigion i newid y parcio ar y stryd sydd ar gael ar Squire Drive.

Pan fydd y fferm solar ym Mryncethin yn weithredol, bydd angen mynediad achlysurol ar gyfer gwaith cynnal a chadw, ond yn anaml y bydd hyn a bydd yn cael effaith fach iawn ar draffig yn yr ardal gyfagos.







*Enghreifftiau nodweddiadol o gerbydau/HGVs*

## HYGEN

Mae Hygen yn cyflenwi hydrogen carbon isel yn weithredol heddiw, gan weithredu ei gyfleuster Parc Ynni Tyseley yn Birmingham ac yn cymhwyso profiad gwirioneddol â phrofwyd i gefnogi'r trawsnewid ynni. Gydag ystod eang o brosiectau, gan gynnwys cyfleuster Hydrogen Carbon Isel Bradford a gymeradwywyd gan DESNZ, mae Hygen yn anelu at gyflenwi hydrogen carbon isel ar raddfa eang, gan helpu i adeiladu'r seilwaith, cefnogi diwydiant a thrafnidiaeth, a chyfrannu at uchelgeisiau net sero 2050 y DU.

Gallwch weld yr holl daflenni ffeithiau, gwybodaeth gefndirol a chynlluniau ar gyfer y prosiect ar-lein drwy fynd i:

**www.hybont.co.uk**